# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 14eg MAI 2024 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **PRESENNOL** - Dafydd Thomas (cad), Nebo, Ceri Owen, Justin Davies, Dylan Herbert, Erfyl Williams (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Gerallt Hughes (Nantlle) Siân Dafydd, Gareth Jones, Harry Wyn Owen, Nigel Williams (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

**YMDDIHEURIADAU** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Judith Humphreys, Barry Bracegirdle (Penygroes), Christine Hughes (Llanllyfni)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd newydd am y flwyddyn Dafydd Thomas a rhoddwyd croeso arbennig i gynghorydd newydd ward Nantlle, Gerallt Hughes.

2. **DATGAN BUDDIANT** - nid oedd gan neb fuddiant mewn unrhyw fater y trafodir.

3. **CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 9fed EBRILL 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** - **Parcio Felin Gerrig, Llanllyfni** - dim yn hapus gyda'r ymateb a gafwyd gan Gyngor Gwynedd. **Tir Cwtin** (bu i Justin Davies ofyn i gael ei esgusodi o'r drafodaeth yma oherwydd materion yn ymwneud a'r pwnc - rhaid nodi nad oes gan Justin unrhyw fuddiant yn y mater bellach ond nid yw'n teimlo yn gyffyrddus yn trafod y mater felly bu iddo adael y cyfarfod) - trafodwyd bod angen cael dyddiad pennu er mwyn gorffen y gwaith ar gyfer hyn ond bod yn rhaid rhoi cyfle i Bwyllgor Cwtin CBC gasglu'r arian sydd eisiau arnynt. Awgrymwyd y dylid holi ein cyfreithiwr i yrru atynt i holi hyn. Hefyd, derbyniwyd e-bost yn holi pryd oedd y contractwyr yn torri'r gwair yn Cwtin - roedd y clerc wedi holi ac mi roeddynt am ei wneud diwedd y mis hwn ac yna mis Awst. **Celf Plas Silyn** - roedd Justin Davies wedi bod mewn cyfarfod i benodi artist i wneud y darn hwn o gelf a pan fydd wedi creu syniad bydd Justin yn dod ar cynllun i'r cyngor weld.

5. **ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei adroddiadau misol ac am ei waith i'r ardal yn gyson. Roedd pawb wedi cael cyfle i edrych dros yr adroddiad. Adroddodd Cyng. Peter Thomas bod Tîm Ardal Ni yn dod i'r ardal yn gyson i wneud gwaith ac yn gofyn i bawb adael i'r clerc wybod os oedd yna unrhyw waith i'w wneud er mwyn cael cysylltu gyda nhw wedyn i ddweud. Mae hyn yn dreial o 3 mis i ddechrau gyda'r gobaith y bydd yn parhau yn hirach. Diolchodd Cyng. Thomas i Ceri am ei gwaith dros y flwyddyn fel cadeiryddes y Cyngor Cymuned.

6. **CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU –** nid oedd cyfarfodydd wedi bod yn ystod y mis.

7. **MATERION PENTREFI - Talysarn -** angen cysylltu gyda pherchnogion Chwarel Dorothea er mwyn cael gwybod beth sy'n mynd ymlaen gyda'r maes parcio. Adroddwyd bod graffiti anweddus wedi cael ei sgrifennu gyda sialc yn y pentref ond roedd wedi golchi i ffwrdd - diolch i Cyng. Thomas am sortio hyn. Cwynion wedi eu derbyn bod y ffordd rhwng Talysarn a'r chwarel yn fudur pan yn bwrw ac yna yn llychlyd pan yn sych a bod ochr y ffordd bellach wedi mynd yn beryglus oherwydd hyn a defnydd y loriau o'r chwarel - dywedodd Cyng. Thomas y buasai yn cysylltu gyda perchnogion y chwarel er mwyn cael sgwrs a holi beth sy'n digwydd ynglŷn â'r system golchi olwynion a oedd wedi ei drafod o'r blaen. Hefyd dŵr dal yn sefyll ar y ffordd yma pan yn bwrw ac angen sylw. Cyffordd Lôn Eglwys a Bryn Celyn yn beryglus oherwydd bod cerbydau yn parcio yno. Y clerc wedi derbyn ebost gan un o drigolion y pentref ynglŷn â materion llwybrau - darllenwyd yr ebost ac adroddodd Cyng. Thomas ei fod yn delio gyda'r mater y defaid ar hyd y pentref. Y clerc i gysylltu gyda'r contractwyr torri llwybrau a Chyngor Gwynedd am y materion eraill

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________

oedd yn codi. **Penygroes** - adroddodd Dylan Herbert bod y canclwm rhwng Penygroes a chylchdro Inigo Jones wedi tyfu yn fwy bellach am fod Cyngor Gwynedd wedi eu torri llynedd. Maent wedi dweud na fyddent yn eu torri eleni - ond bydd angen cadw llygaid ar y sefyllfa rhag ofn. Twll wedi ymddangos yn nho'r safle bws - angen cysylltu gyda'r heddlu er mwyn cael mynediad i'r CCTV i weld os oedd rhywun wedi gwneud difrod pwrpasol yno. Cylchdro Penygroes / Llanllyfni y tarmac dal i gracio yna er eu bod nhw wedi bod yn patcho fyny yno. **Nantlle** - pryder ynglŷn â'r defaid ar hyd y pentref ac y bydd wedi achosi damwain os na fyddent yn cael eu cau fewn cae fel y dylent. **Llanllyfni** - twll yn Lôn Ddŵr dal heb gael ei drwsio. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi cl oar giât y cae chwarae yn lle bod neb yn ei ddefnyddio er mwyn parcio ayyb. Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â ffens fawr sydd wedi ei gosod rhwng dau eiddo ym Mryn Rhedyw, hefyd mae pryderon wedi eu codi gan bobl am ffordd mae tenant un o'r eiddo yn trin ac yn siarad gyda'r person yn yr eiddo drws nesaf - y clerc i gysylltu gydag ADRA am hyn. **Nebo -** Lôn Pant Y Gog wedi cael ei patcho am nawr. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y materion a godwyd yma.

8. **<u>TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID</u>** - roedd pawb wedi derbyn y cyfrifon ymlaen llaw i'w cyfarfod - nid oedd llawer o arian wedi mynd fewn nac allan gan ei bod yn ddechrau'r flwyddyn ariannol. Nid oedd gan neb unrhyw sylw i'w roi ar gyllideb 2024/25. Roedd templed wedi ei dderbyn o gontract clerc - penderfynwyd bod angen edrych dros hwn mewn is-bwyllgor. Gofynnwyd i'r clerc holi Judith Humphreys beth oedd yn digwydd gyda'r clwb ieuenctid gan fod yr arian sydd wedi ei benodi iddo bellach yn £16,000 gan nad yw wedi ei ddefnyddio dros y blynyddoedd**.** **Lwfans cynghorwyr 2024/25** - rhoddwyd y ffurflenni allan i bawb a gofyn iddynt feddwl am y mater os oeddynt am gymryd y lwfans a'i ddim a dychwelyd y ffurflenni wedi eu llenwi i'r cyfarfod mis Mehefin os gwelwch yn dda.

9. **<u>LLWYBRAU A MYNWENTYDD</u> -** un pris a oedd wedi ei dderbyn i osod peipen ddŵr yn Fynwent Macpela - gan A W Jones am £1200 - trafodwyd, cynigwyd ac eiliwyd i dderbyn y pris hwn. Y clerc i gysylltu gyda Mr Jones i ofyn iddo gario allan y gwaith. Adroddwyd bod Mynwent Gorffwysfa yn daclus a dim sbwriel yn cael ei adael yno, ond yn anffodus nid dyna sut mae yn Macpela - pobl dal i adael sbwriel, ond bellach mewn llefydd eraill yn y fynwent hefyd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi am brisiau biniau a lle i'w cadw yn y fynwent. Rhannau o fynwent Sant Rhedyw eisiau ei thorri ac angen chwynladdwr.

10. **<u>SYSTEM UNFFORDD YSGOL TALYSARN</u>** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r opsiynau ayyb ar gyfer y system hon. Cynigiodd Cyng. Peter Thomas y buasai yn syniad cael cyfarfod safle gyda Chyngor Gwynedd a phrifathrawes a llywodraethwyr yr ysgol i drafod y mater ymhellach. Cytunwyd gyda hyn.

11. **<u>CAIS AM GEFNOGAETH CYNGOR TREF NEFYN YNGLŶN Â CHYNGOR GWYNEDD YN GWNEUD GWARIANT AR GERBYDAU TRYDANOL</u>** - roedd pawb wedi derbyn copi o beth oedd Cyngor Nefyn wedi ei yrru a hefyd copi o ymateb Dyfrig Siencyn i'r mater - cynigwyd ac eilwyd i gefnogi Cyngor Nefyn gyda hyn.

12. **<u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

- C24/0341/22/DT - 7 Tai Nantlle, Nantlle - Dymchwel rhan o estyniad ac adeiladu estyniad unllawr i ffurfio cegin a thoiled mwy ar y llawr gwaelod gan gynnwys balconi. Gosod ffenest to newydd i'r llawr 1af a gosod 'log burner' a ffliw newydd i'r edrychiad cefn.

- C24/0338/22/DT – 7 Tai Nantlle, Nantlle – Dymchwel estyniad a chodi estyniad deulawr newydd i ffurfio cegin a thoiled mwy ar y llawr gwaelod ac ystafell wely ychwanegol i'r llawr 1af gyda rhan o'r balcony dros y cefn. Ychwanegu pedwar ffenest to a gosod ffliw newydd ar yr edrychiad cefn.

Trafodwyd y ceisiadau yma a oedd am yr un eiddo - gofynnwyd i'r clerc ofyn am eglurhad pam bod dau gais cyn y gall y Cyngor Cymuned wneud penderfyniad.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________

- C24/0360/22/LL – Rhan o llain 8 a 9 Stad Ddiwydiannol, Penygroes – codi 4 adeilad diwydiannol, storio a dosbarthu ysgafn cysylltiedig gyda gofod swyddfa – DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. **GOHEBIAETH** - nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn dros y mis.

14. **MATERION ARIANNOL -** trafodwyd a phenderfynwyd talu'r canlynol

- Nia Jones – ffôn a rhyngrwyd = £25.00

- Moss Computers – antivirus a meddalwedd remote am y flwyddyn = £55.00.

15. **UNRHYW FATER ARALL** - gofynwyd pam fod y gair "DYFFRYN" wedi ei ollwng o'r enw "DYFFRYN NANTLLE" wrth sôn am yr ysgol a phethau eraill yn y gymuned. Teimlad nad yw hyn yn gywir ac mai pentref arwahan ydi Nantlle - ac mai Dyffryn Nantlle ydi'r gymuned yn ei chyfanrwydd.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal nos Fawrth, 11eg Mehefin 2024 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________